Sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

Making communications work **for everyone**

# Adennill costau am wasanaethau eiriolaeth defnyddwyr a rheoleiddio'r post

Adolygiad

Ymgynghoriad

Dyddiad cyhoeddi: 27 Gorffennaf 2017

Dyddiad Olaf ar gyfer derbyn Ymatebion: 21 Medi 2017

# Gair am y ddogfen hon

Ofcom sy'n gyfrifol am reoleiddio'r farchnad bost yn y DU. Wrth wneud hyn, rydym yn cael costau. Ymgynghoriad yw'r ddogfen hon ac ynddi nodir y newidiadau mae Ofcom yn bwriadu eu gwneud i'r ffordd rydym yn adennill y costau rydym yn eu cael wrth reoleiddio'r sector post.

Hefyd, Ofcom sy'n gyfrifol am adennill costau cyrff sy'n darparu gwasanaeth eiriolaeth i ddefnyddwyr, er enghraifft Cymorth ar Bopeth, yng nghyswllt eu gwaith yn y sector post. Mae'r ddogfen hon hefyd yn nodi'r newidiadau y mae Ofcom yn bwriadu eu gwneud i'r ffordd rydym yn adennill costau ar ran y cyrff eiriolaeth defnyddwyr hyn.

# Cynnwys


| Adran | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb gweithredol | 1 |

**Adran 1**

# Crynodeb gweithredol

1.1 Wrth reoleiddio'r sector post, mae Ofcom yn cael costau. Mae Ofcom yn adennill y costau hyn drwy godi ffi weinyddol i'r sector gwasanaethau post. Bob blwyddyn, rhaid pennu'r ffioedd hyn er mwyn iddynt fod yn ddigon i gwrdd â'r costau blynyddol i Ofcom o reoleiddio'r sector dan sylw, ond heb fod yn fwy na hynny.[1]

1.2 O dan Ddeddf Gwasanaethau Post 2011 ("Deddf 2011), mae'n rhaid i Ofcom bennu ffioedd gweinyddol ar gyfer y sector gwasanaethau post yn unol â'i egwyddorion codi tâl. Yn y ddogfen hon, rydym yn cynnig nifer o newidiadau i'r datganiad o egwyddorion codi tâl: Gwasanaethau Post (SoCP) [2] sy'n nodi sut rydym yn codi tâl ar weithredwyr post am y gost o reoleiddio.

1.3 O dan adran 51 o Ddeddf 2011, gall Ofcom hefyd ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr post wneud taliadau i'r cyrff eiriolaeth defnyddwyr am eu gwaith ym maes gwasanaethau post. Mae'r cyrff eiriolaeth defnyddwyr hyn yn cynnwys Cymorth ar Bopeth, Cymorth ar Bopeth yr Alban a Chyngor Defnyddwyr Cyffredinol Gogledd Iwerddon.

1.4 Nid oes gan Ofcom unrhyw rôl i'w chwarae o ran pennu lefel ffioedd y cyrff eiriolaeth defnyddwyr nac yng nghyswllt archwilio'r gwaith o gyfrifo costau eiriolaeth defnyddwyr. Mater i'r Ysgrifennydd Gwladol yw hwn. Ni, fodd bynnag, sy'n gyfrifol am adennill y ffioedd ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol. Yn ogystal â nodi nifer o newidiadau i'r ffordd y mae Ofcom yn adennill ei gostau ei hun, mae'r ddogfen hon hefyd yn cynnig newidiadau i'r ffordd rydym yn adennill costau eiriolaeth defnyddwyr yng nghyswllt y gwasanaethau post.

1.5 Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw casglu barn am y newidiadau arfaethedig.

## Crynodeb o'n cynigion

1.6 Rydym yn bwriadu addasu'r Gwasanaethau Post er mwyn bod:

1.6.1 trosiant o'r gwasanaethau a ddarparwyd yn unol â chytundeb mynediad gorfodol,[3] gwasanaethau post swmpus a darparwyr gwasanaethau un darn o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer llythyrau a ystyriwyd yn drosiant perthnasol, at ddibenion adennill taliadau gweinyddol; a'r

1.6.2 trothwy ar gyfer talu ffi weinyddol yn cael ei ostwng o drosiant o £10 miliwn i'r trosiant perthnasol (h.y. trosiant yng nghyswllt y gwasanaeth sydd wedi'i nodi ym mharagraff 1.6.1) o £5 miliwn

1.7 Rydym yn cynnig diwygio'r amod diogelu defnyddwyr perthnasol fel bod costau'r cyrff eiriolaeth defnyddwyr yn cael eu hadennill gan yr un grŵp o weithredwyr post ag sy'n talu ffi weinyddol i Ofcom, ac eithrio pan fo'r costau hynny'n ymwneud â darparu cynllun cyngor i ddefnyddwyr cyhoeddus (e.e. llinell gymorth i alwyr). Bydd y costau

[1] Adran 43(2) Atodlen 4 y Ddeddf Gwasanaethau Post
[2] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0028/53893/socp-post-statement.pdf
[3] Gwasanaethau yw'r rhain sy'n cael eu darparu gan weithredwyr sy'n defnyddio rhwydwaith y Post Brenhinol yn rhinwedd amod sy'n mynnu bod y Post Brenhinol yn darparu mynediad o'r fath.

hyn yn parhau i gael eu casglu wrth y gweithredwyr post sy'n destun ymholiadau sy'n cynhyrchu'r costau hyn, yn ddibynnol ar drothwy talu isaf.

## Y camau nesaf

1.8 Rydym yn gofyn am sylwadau gan randdeiliaid ar y cynigion yn y ddogfen hon. Bydd yr ymgynghoriad yn para am 8 wythnos a'r dyddiad terfynol ar gyfer derbyn ymatebion yw 21 Medi 2017. Cewch ragor o wybodaeth ynglŷn â sut i ymateb yn yr adran Ymgynghoriadau ar y wefan.